

EIN DULL GWEITHREDU AR GYFER CYNNWYS POBL

1.1 Cynnwys Pobl a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Cynnwys pobl yw un o'r egwyddorion datblygu cynaliadwy allweddol y mae'n rhaid ymdrin â nhw ar y cyd â chymunedau a rhanddeiliaid ehangach. Mae safbwyntiau cymunedau ynghylch y ffordd y caiff adnoddau eu defnyddio i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn hanfodol er mwyn galluogi partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wneud penderfyniadau am y ffyrdd y maent yn cyflawni rhaglenni a phrosiectau o fewn cymunedau ac ochr yn ochr â nhw. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer rhannau o'n cymunedau na chânt eu clywed cymaint, megis pobl â nodweddion gwarchoddedig.

Mae dyletswydd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i gydweithio tuag at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Rhaid i hyn gynnwys asesu cyflwr llesiant yn y rhanbarth, gan gynnwys asesu cryfderau cymunedau, er mwyn llywio'r gwaith o bennu'r amcanion sy'n cyfrannu at lesiant, a nodi'r camau rhesymol y bydd angen eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny. Rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau ei fod yn cynnwys pobl drwy gydol y broses hon er mwyn deall eu hanghenion a'u dyheadau ar gyfer dyfodol yr ardal lle maent yn byw. Mae'n hollbwysig cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol er mwyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau ymateb o safon uchel i'r problemau sy'n wynebu cymunedau nawr ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig cynnal deialog barhaus â chymunedau a rhoi adborth ar y ffordd y mae eu syniadau wedi helpu i lywio'r cynllun llesiant.

1.2 Y Prosesau a Ddilynwyd Gennym

Galwyd grŵp o weithwyr proffesiynol ym maes ymgysylltu a chyfathrebu o holl aelod-sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghyd i sefydlu Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, er mwyn datblygu'r prosesau cynnwys sy'n angenrheidiol i gasglu safbwyntiau cymunedau i ategu'r asesiad hwn.

Er mwyn gallu sicrhau cysondeb rhwng y partneriaid sy'n rhan o'r broses ymgysylltu, lluniwyd cyfres gyffredin o gwestiynau, gan adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr asesiad lleol blaenorol yn 2017/18. Roedd hyn yn fodd i ni weld a oedd safbwyntiau cymunedau wedi newid ers yr asesiad llesiant diwethaf. Cynhaliwyd ymarfer mapio rhanddeiliaid er mwyn penderfynu ar y grwpiau a sefydliadau allweddol y byddai angen i ni eu targedu ac osgoi dyblygu ymhlith yr holl bartneriaid sy'n rhan o'r grŵp. Mae gan y Grwpiau Gwasanaethau Cyhoeddus blaenorol yn y rhanbarth eisoes amrywiaeth o amcanion llesiant, ac roedd yn bwysig deall a oedd y rhain yn dal yn bwysig i gymunedau, yn ogystal â

rhoi adborth ar y gwaith a oedd wedi cael ei wneud i gyflawni'r amcanion hynny. Felly, gallai ardal pob bwrdd blaenorol gyfeirio at ei chynllun llesiant presennol, a fydd yn para tan fis Mai 2023. Defnyddiwyd dau gwestiwn cyffredin wrth gyfeirio at y cynlluniau presennol:

- **A yw'r amcanion llesiant yn dal yn bwysig i chi?**
- **A oes unrhyw beth wedi newid?**

Defnyddiwyd y cwestiynau canlynol fel sail ar gyfer yr arolwg llesiant a'r sesiynau ymgysylltu lleol. Defnyddiwyd cwestiynau atodol i ddatblygu'r sgwrs ac ysgogi syniadau.

- **Beth sy'n arbennig/yn dda am eich cymuned/am yr ardal lle rydych chi'n byw?**
 - Awgrym atodol – Beth yw'r agweddau cadarnhaol ar yr ardal lle rydych chi'n byw?
- **Beth fyddai'n ei wneud yn lle gwell?**
- **Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?**
 - Awgrym atodol – Lleoedd, gwasanaethau, cyfleusterau, grwpiau/gweithgareddau cymunedol.
 - Cwestiwn atodol – Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo yn eich cymuned?
 - Cwestiwn atodol – Sut y gallwn gefnogi pobl hŷn a gofalu amdanynt yn y dyfodol?
- **Sut le yr hoffech chi i'ch cymuned fod yn y dyfodol?**
 - Awgrym atodol – Mae'n bwysig i ni wybod beth hoffai ein cymunedau ei weld yn digwydd yn y dyfodol.
- **Sut y gallai eich cymuned weithio gyda ni er mwyn sicrhau y bydd hynny'n digwydd?**

Gofynnwyd i bobl hefyd a hoffent barhau i gymryd rhan, a rhoddwyd y dewis iddynt roi manylion cyswllt.

Arolwg ar-lein seiliedig ar SNAP oedd y prif adnodd ymgysylltu, ac roedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn Arabeg, Bengaleg, Hwngareg, Mandarin, Pwyleg, Rwmaneg, Slofaceg, Tyrceg ac Wrddw, sef y prif ieithoedd a'r ieithoedd ethnig lleiafrifol yn y rhanbarth. Dechreuodd yr arolwg ar 16 Awst 2021, a daeth i ben ar 30 Medi 2021.

Roedd copïau papur o'r arolwg ar gael yn y cymunedau ar ffurf cardiau post â dolen QR (ymateb sydyn) i'r arolwg ar-lein arnynt, a ddosbarthwyd i leoliadau megis llyfrgelloedd, meddygfeydd a chanolfannau hamdden.

Lluniwyd pecynnau hunangyfeiriedig i randdeiliaid er mwyn galluogi ac annog sefydliadau â diddordeb i fwydo i mewn i'r arolwg, gan gynnwys casgliad o sleidiau a chyfarwyddiadau wedi'u bwriadu ar gyfer oedolion a phobl ifanc. Gofynnwyd i Fforymau Ieuenctid unigol a Grwpiau i bobl 50 oed a throsodd ymgysylltu â'u haelodau. Cafodd grwpiau sy'n cynrychioli

pobl â nodweddion gwarchoddedig eu hannog yn arbennig i gyfrannu at yr arolwg, yn ogystal ag ymgysylltu mewn ffordd a oedd yn ystyrlon iddyn nhw, drwy drafodaeth ar-lein.

Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r arolwg ar-lein ac i gynnal sgwrs barhaus, gydag un cwestiwn o'r gyfres gyffredin o gwestiynau yn cael ei ryddhau bob wythnos drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yr aelod-sefydliadau.

Mae cyrff cyhoeddus, fel aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, yn gyflogwyr mawr ac felly cafodd yr arolwg ei ddsbarthu i'r staff, y bydd llawer ohonynt yn byw yn y rhanbarth. Fodd bynnag, cafodd pobl sy'n gweithio yn y rhanbarth eu hannog i ymateb hefyd.

Roedd modd i rai aelod-sefydliadau gynnal digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb, neu ymuno â rhai a oedd eisoes yn cael eu cynnal. Serch hynny, nid oedd hyn yn bosibl i bob un, fel yr esbonnir yn yr adran ganlynol.

Ymgysylltwyd yn uniongyrchol â'r sector gwirfoddol a chynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned mewn rhai ardaloedd. Hefyd, gwnaed ymdrechion i ymgysylltu mewn ardaloedd/cymunedau penodol ac, mewn rhai achosion, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu rhithwir gan ddefnyddio'r gyfres o gwestiynau fel sail i'r sesiynau.

Ni chasglwyd data ar nodweddion gwarchoddedig ymatebwyr yn benodol, ond gofynnwyd i bob ymatebydd a oedd ei statws cydraddoldeb yn effeithio ar ei ymatebion.

1.3 Mesur a Dadansoddi'r Ymateb

Cymerodd cyfanswm o 1,713 o ymatebwyr ran yn Arolwg Llesiant Gwent, gan roi llawer o wybodaeth ansoddol yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyntaf. Er mwyn rheoli hyn yn effeithiol, cyflogwyd myfyriwr graddedig o Raglen Springboard Plus+ Prifysgol De Cymru i ddiidoli a dadansoddi'r ymatebion yn ôl thema ac ardal ddaearyddol.

Roedd y data'n cynnwys ymatebion i'r arolwg o bob un o'r pum ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Cawsant eu dadansoddi ar lefel ranbarthol a lleol. Cam cyntaf y broses ddadansoddi oedd paru pob ymateb i'r arolwg â'r themâu ym mhenodau ein hasesiad llesiant; Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. Gwnaed hyn drwy nodi'r materion ym mhob ymateb a phenderfynu pa un o'r themâu a oedd yn cyfateb i bob un. Ar ôl i bob ymateb gael ei baru â thema graidd pennod, aethom yn ôl drwy'r ymatebion er mwyn penderfynu ar bwnc ar gyfer pob ymateb, a ph'un a oedd yr ymateb yn gadarnhaol neu'n negyddol. Roedd y pynciau hyn yn amrywio o dai i ddiogelwch cymunedol, ansawdd aer a mwy. Gwnaed hyn er mwyn ein helpu i gynnal dadansoddiad manylach o'r ymatebion i'r arolwg llesiant.

Y cam nesaf oedd didoli'r ymatebion i'r ardaloedd cymunedol ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol a pharu cod post pob ymatebydd ag ardal gymunedol. Helpodd hyn ni i roi bras amcan o ansawdd llesiant ym mhob cymuned.

Ar ôl cynnal dadansoddiad manylach o'r pynciau a ddaeth i'r amlwg o ganlyniadau'r arolwg asesu, gwnaethom grwpio pob thema yn ôl y penodau; Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol.

O hyn ymlaen, mae'r angen am feddalwedd dadansoddi ansoddol i gynorthwyo'r broses ymhellach, a champau ymgysylltu dilynol, wedi cael ei nodi ac mae hynny'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth fanylach wrth i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent symud o'r broses asesu i'r broses gynllunio yn ystod 2022.

1.4 Myfyrdodau ar Gynnwys Pobl

Mae llesiant yn gysyniad goddrychol sy'n golygu gwahanol bethau i wahanol bobl ac mae profiad personol pobl, gan gynnwys eu profiad o ddelio ag aelod-sefydliadau unigol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn dylanwadu ar y canfyddiadau hynny. Er i'r ymarferion gael eu cyflwyno fel rhai 'ar ran y bwrdd', mae'n anochel bod ymatebion pobl yn amrywio yn dibynnu ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwyd i'w cynnal. Er enghraifft, roedd cwestiynau a gyhoeddwyd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol yr heddlu yn debygol o ennyn ymatebion am drosedd ac anhrefn; roedd cwestiynau a gyhoeddwyd ar sianeli awdurdodau lleol yn debygol o ennyn ymatebion a oedd yn ymwneud â gwasanaethau cynghorau.

Cafodd yr ymarferion ymgysylltu a ddisgrifir uchod eu cynnal yn ystod ail haf/hydrif pandemig COVID-19 ac roedd yr angen i gadw pellter cymdeithasol ac atal risg i gyfranogwyr yn ddylanwad mawr ar y dewis o adnoddau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu. Ar y pryd, roedd sefydliadau a oedd yn cynnal elfennau'r broses ymgysylltu wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i ymgysylltu rhithwir a digidol yn hytrach nag ymgysylltu wyneb yn wyneb. Ychydig iawn o ymarferion ymgysylltu wyneb yn wyneb a gynhaliwyd ac roedd y rhai a gynhaliwyd yn tueddu i fod yn yr awyr agored. Nid oedd yn bosibl i lond ystafell o bobl ymgynnull i rannu a chyfnewid safbwyntiau mewn modd diogel. Roedd gwasanaethau cynghorau, heblaw'r rhai lle mae angen rhyngweithio'n uniongyrchol wyneb yn wyneb, yn cael eu darparu o bell. Golygai hyn fod llai o bobl yn mynd i swyddfeydd a llai o gyfle i ymgysylltu. Roedd canol trefi yn dawelach yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyntaf, am fod pobl yn osgoi mannau cyhoeddus. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol ym maes ymgysylltu fod y sgysiau dwyffordd, wyneb yn wyneb, agored a gynhaliwyd pan oedd y cynlluniau llesiant blaenorol yn cael eu datblygu wedi ennyn mwy o ddiddordeb ac wedi esgor ar lawer mwy o gynnwys a mwy o 'ymgysylltiadau'.

Roedd rhai rhannau o gymdeithas yn anodd iawn eu cyrraedd, er enghraifft pobl ifanc lle y byddai'r ymgysylltu fel arfer wedi digwydd yn yr ysgol ac mewn digwyddiadau haf. Gan nad oedd yr un o'r cynghorau yn cynnal eu rhaglen arferol o ddigwyddiadau haf yn ystod 2021, roedd hyn yn amhosibl, neu'n gyfyngedig iawn, yn dibynnu ar y cyngor unigol a'r penderfyniadau yr oedd wedi'u gwneud. Lle roedd modd ymgysylltu wyneb yn wyneb, nodwyd ei bod yn ymddangos bod pobl yn llai tueddol nag arfer o godi arolwg papur neu

siarad â chyfwelydd am unrhyw gyfnod o amser, a thybir bod hyn oherwydd ofn dal yr haint a newidiadau i ymddygiad.

Er i fwy a mwy o bobl ddod yn gyfforddus yn cyfathrebu'n ddigidol, a defnyddio negeseua fideo yn ystod y pandemig, nid dyma'r dull cyfathrebu y mae llawer o bobl yn ei ffafrio. Roedd llawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn methu defnyddio 'Zoom' (un o'r adnoddau galwadau fideo mwyaf cyffredin a chyfarwydd i'r cyhoedd) oherwydd pryderon ynglŷn â diogelwch, felly defnyddiwyd 'Microsoft Teams' ar gyfer rhywfaint o ymgysylltu. Nid yw'r cyhoedd yn deall 'Teams' cystal, a all fod wedi gwneud pobl yn gyndyn o dderbyn dolen i gyfarfod 'Teams'. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol cymaint â phosibl a chafodd y prif adnodd ymgysylltu, sef yr arolwg SNAP, ei hyrwyddo drwy'r dull hwn a hefyd drwy sianeli mwy traddodiadol ar gyfer y bobl a oedd yn llai cyfforddus yn cyfathrebu'n ddigidol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y byddai allgau digidol wedi bod yn broblem. Roedd llawer o bwyntiau rhyngrwyd cyhoeddus, megis llyfrgelloedd, yn dal ar gau. Roedd y gwaith o ddarparu addysg yn rhithwir drwy gydol y pandemig eisoes wedi tynnu sylw at yr anghyfartaledd digidol ledled cymunedau, gyda phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o ddibynnu ar becynnau data ffonau symudol na Wi-Fi yn y cartref. Hefyd, yn anecdotaidd, cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol at ymdeimlad o 'syrffed digidol' mewn cymunedau. Roedd llawer o bobl yn gweithio gartref yn rhithwir, gyda chyfarwyddyd cyffredinol gan Lywodraeth Cymru i barhau i wneud hynny. Byddai'r syniad o fynd i ddigwyddiadau rhithwir ar ddiwedd y diwrnod gwaith wedi bod yn llai apelgar.

Roedd modd i rai partneriaid gynnig raffl fel cymhelliant i bobl gymryd rhan, ond ni lwyddodd hyn, hyd yn oed, i ennyn llawer o ddiddordeb ychwanegol. Roedd llawer o sefydliadau wedi bod yn cynnal arolygon o gleientiaid, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol wrth iddynt addasu i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, ac roeddent yn defnyddio arolygon yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn deall canfyddiad pobl o'r pandemig a'r broses adfer. Mae'n bosibl bod hyn hefyd wedi cyfrannu at y niferoedd llai o ymatebion i'r arolwg SNAP nag a fyddai wedi bod yn ddisgwyliedig fel arall; achos posibl o 'syrffed ar arolygon'.

1.5 Defnyddio Allbynnau'r Gwaith Ymgysylltu

Er gwaethaf yr heriau, roedd modd i ni gasglu ffynonellau cyfoethog o ddata ansoddol a safbwyntiau gan drigolion y rhanbarth yn ystod haf 2021. O'r bobl a ymgysylltodd â'r arolwg, gwnaethant hynny ar lefel ddyfnach na sgwrs a allai fod yn un fer iawn mewn digwyddiad awyr agored. Mae eu safbwyntiau wedi cael eu didoli yn ôl thema ac ardal ddaearyddol er mwyn bwydo i mewn i'r adrannau perthnasol yn yr asesiad llesiant lleol hwn. Hefyd, mae mewnbyn a oedd yn arbennig o berthnasol i un aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu'i gilydd, wedi bwydo i mewn i waith cynllunio gwasanaethau cyrff cyhoeddus unigol.

Gofynnwyd dau gwestiwn yn benodol â'r nod o dynnu sylw at ymarferion ymgysylltu eraill a oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd:

- Cwestiwn atodol – Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo yn eich cymuned?
- Cwestiwn atodol – Sut y gallwn gefnogi pobl hŷn a gofalu amdanynt yn y dyfodol?

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau hyn wedi bwydo i mewn i Gynllun Heddlu a Throseddu 2022-2026; a'r asesiad o anghenion y boblogaeth ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 – ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Ym mhob un o adrannau'r asesiad llesiant lleol hwn, mae safbwyntiau ansoddol cymunedau a rhanddeiliaid wedi cael eu defnyddio i roi lliw i'r penodau Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. Yr adrannau allweddol er mwyn deall y safbwyntiau hyn yw'r adrannau 'Yr Hyn y mae Pobl yn ei Ddweud Wrthym' Lle y gwnaed sylwadau arbennig o graff, caiff y rhain eu defnyddio i grynhoi teimladau cyffredinol grŵp o bobl a rhoi 'llais' i gymunedau, ac maent i'w gweld yn achlysurol drwy'r naratif.

1.6 Ymgysylltu ag 'arbenigwyr' ac ymgylchreion statudol

Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar yr asesiad llesiant lleol drafft ar gyfer ymgysylltu pellach ym mis Rhagfyr 2021. Casglwyd safbwyntiau gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid o sefydliadau partner, a gydnabyddir fel 'cymuned o arbenigwyr', ar yr asesiad llesiant lleol drafft ar ddechrau 2022. Roedd y fethodoleg ar gyfer hyn yn weddol debyg ledled y rhanbarth, a chafodd safbwyntiau 'Grwpiau Cyflawni Lleol' y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol, eu cynnwys. Roedd yn debygol bod y gweithwyr proffesiynol hyn wedi bod yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r pum cynllun llesiant lleol a oedd eisoes yn bodoli.

Mewn rhai sefydliadau, yn enwedig yr awdurdodau lleol, ymgysylltwyd yn uniongyrchol ag uwch dimau arwain a'u Cabinetau anffurfiol. Holwyd gweithwyr proffesiynol megis arbenigwyr ym meysydd cynllunio, data gofodol, iechyd yr amgylchedd, datblygu cymunedol, twristiaeth/cyrchfannau a chaffael, er enghraifft, er mwyn cadarnhau ystyr yr hyn a ddywedwyd.

Mae Adran 38 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhestr ymgylchreion statudol y mae'n rhaid ymgysylltu â nhw wrth ddatblygu'r asesiad llesiant lleol:

- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyfranogwyr a phartneriaid gwadd y Bwrdd
- Pwyllgor trosolwg a chraffu pob awdurdod lleol
- Sefydliadau gwirfoddol perthnasol

- Trigolion lleol
- Cynrychiolwyr busnesau lleol
- Undebau llafur
- Cyrff perthnasol sydd â diddordeb mewn adnoddau naturiol
- Personau eraill sydd â diddordeb mewn llesiant

Mewn rhai achosion, cafodd yr ymgynghoriadau Adran 38 eu rheoli ar ran y rhanbarth - Aelodau'r Senedd ac Aelodau Senedd y DU, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol ac ati. Cafodd eraill eu rheoli'n lleol - pwyllgorau craffu lleol, pob cynghorydd etholedig lleol, cynghorau tref a chymuned, undebau llafur, cynrychiolwyr busnesau lleol, ysgolion, staff, grwpiau i bobl 50 oed a throsodd, cynghorau ieuenctid, grwpiau lleol sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig, rhwydweithiau ieuchyd, gofal cymdeithasol a llesiant ac ati.

Gofynnodd 'sgwrs' bellach a gynhaliwyd yn y cyfryngau cymdeithasol i'r cyhoedd ystyried canfyddiadau'r asesiad drafft a rhannu eu safbwyntiau arnynt yn ystod mis Ionawr 2022. Yn benodol, gofynnwyd am eu safbwyntiau ar y prif ddata a ddaw i'r amlwg yn yr asesiad drafft, ac a oeddent yn cytuno â chanfyddiadau'r gwaith ymgysylltu a wnaed yn ystod haf 2021.

Rhannodd aelod-sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu safbwyntiau hefyd, er enghraifft Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn debyg i'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a wnaed yn ystod haf 2021, cafodd allbynnau'r gwaith ymgysylltu ar yr asesiad drafft eu didoli yn ôl thema; Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol, a'u hymgorffori gan awduron y penodau lle y teimlid bod yr awgrymiadau'n gwella ansawdd yr asesiad. Cawsant eu didoli ymhellach yn ôl ardal ddaearyddol er mwyn helpu i ddeall llesiant ar lefel gymunedol.

Cafodd safbwyntiau'r ymgynghoreion statudol, yn enwedig Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru a'r pwyllgorau craffu lleol, eu hymgorffori hefyd, hyd y gellid. Lle nad oedd hyn yn bosibl, mae'n debygol mai cyfyngiadau data oedd y rheswm dros hyn.

1.7 Asesiadau Ardaloedd Cymunedol

Mae Asesiadau Ardaloedd Cymunedol yn rhan bwysig o'r asesiad hwn, oherwydd mae'n rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant is-ardaloedd daearyddol, islaw lefel yr awdurdod lleol, sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng cymunedau ac ardaloedd. Mae rhanbarth Gwent wedi cael ei rannu'n 22 o ardaloedd cymunedol, ac mae safbwyntiau trigolion yn yr ardaloedd cymunedol hyn wedi cael eu didoli drwy waith dadansoddi codau post a mathau eraill o waith dadansoddi, fel bod modd deall gwahanol ganfyddiadau. Mae'r rhanbarth yn fawr ac, yn union fel y mae'r data'n amrywio o un gymuned i'r llall, mae safbwyntiau a chanfyddiadau'r cymunedau hynny'n amrywio hefyd. Dilynodd holl aelodau'r bwrdd y prosesau a nodir yn 1.2 (y cyfnod ymgysylltu cyntaf) ac 1.6 (ymgysylltu ar y drafft)

uchod. Fodd bynnag, bydd y dull gweithredu wedi amrywio i raddau o un ardal i'r llall, ac yn yr achosion hynny lle y cafodd yr ymarferion ymgysylltu eu cynnal mewn ffordd fymryn yn wahanol, caiff yr allbwn ei grynhai yn yr Asesiadau Ardaloedd Cymunedol. Mae'r data ymgysylltu wedi'u didoli yn ôl ardal ddaearyddol wedi cael eu defnyddio i egluro pob un o'r 22 o Asesiadau Ardaloedd Cymunedol.

1.8Y Ddeialog Barhaus â Chymunedau

Sefydliad newydd yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, a bydd y byrddau blaenorol sy'n weddill yn parhau i gyflawni'r cynlluniau llesiant presennol tan 2023. Gwnaed y gwaith ymgysylltu yn rhanbarthol, ond gan yr aelod-sefydliadau ac ynddynt.

Yn ystod haf 2022, bydd ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd, a phartïon sydd â diddordeb, yn bwysig er mwyn datblygu amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy ddadansoddi'r ymatebion i'r Cynllun Llesiant ar gyfer 2023-2028. Wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio, y gobaith yw y gellir gwneud llawer mwy o'r gwaith ymgysylltu hwn wyneb yn wyneb.

Bydd natur agored a thryloyw'r Bwrdd, a'r ddeialog barhaus â'r bobl sydd wedi rhannu eu safbwyntiau, yn parhau drwy wefan newydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a phwyntiau cyswllt. Hefyd, mae ffrwd Twitter, sef @gwentpsb, a chyfrif Facebook, sef Gwent Public Services Board, wedi cael eu sefydlu. Daw'r wefan a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn fwyfwy pwysig wrth i'r Bwrdd symud o'r cam asesu i'r cam cynllunio. Yn benodol, fe'u defnyddir i gynnal profion er mwyn gweld a yw'r amcanion llesiant a ddewiswyd yn addas i'r cymunedau.

Bydd yn allweddol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent roi cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu tymor hwy ar waith drwy gydol cyfnod y cynllun llesiant sydd ar ddod a thu hwnt i 2023 er mwyn ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid a'u cynnwys yn y gwaith cyflawni.